# Cais am Dystiolaeth ynghylch y Lwfans Gofalwr

## Rhagair gan y Gweinidog

Mae gofalwyr di-dâl yn gwneud cyfraniad hanfodol i'n cymunedau a'n gwlad, gan ddarparu gofal a chymorth i aelodau o'u teulu a'u hanwyliaid, a hynny'n aml ochr yn ochr â chyfrifoldebau eraill. Mae'r Lwfans Gofalwr yn chwarae rôl bwysig wrth gydnabod y cyfraniad hwnnw.

Ond rydym yn gwybod nad yw'r system wedi gweithio cystal ag y dylai bob amser. Gwnaethom etifeddu system lle roedd rhai gofalwyr, a oedd eisoes yn ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu sylweddol, yn cael gordaliadau annisgwyl ac yn wynebu ansicrwydd ynghylch sut roedd y rheolau'n berthnasol iddynt.

Dangosodd yr Adolygiad Annibynnol o Ordaliadau'r Lwfans Gofalwr fod camgymeriadau wedi'u gwneud gan y llywodraeth flaenorol, ac rydym yn benderfynol o wneud iawn am hynny. Cyflwynwyd y Lwfans Gofalwr yn 1976. Er ei fod wedi cefnogi gofalwyr a'u hanwyliaid, nid yw wedi cadw i fyny â newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn gweithio heddiw. Mae llawer o ofalwyr am gael yr hyblygrwydd i gyfuno rhywfaint o waith am dâl â'u cyfrifoldebau gofalu.

Rydym eisoes wedi cymryd camau i wella'r system, gan gynnwys cysylltu terfyn enillion wythnosol y Lwfans Gofalwr ag 16 gwaith cyfradd fesul awr y Cyflog Byw

Cenedlaethol, diweddaru'r canllawiau i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau, a gwella llythyrau a gohebiaeth i gwsmeriaid. Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn gam nesaf pwysig.

Rydym am ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth er mwyn deall yn well sut y gall y Lwfans Gofalwr helpu gofalwyr i gydbwyso cyfrifoldebau gwaith a gofalu, gan sicrhau ar yr un pryd ei fod yn parhau'n glir, yn deg ac yn gynaliadwy. Rydym yn ceisio barn a thystiolaeth i'n helpu i ystyried sut y gellid moderneiddio'r Lwfans Gofalwr, gan gynnwys drwy gyflwyno tapr enillion, rôl y rheolau enillion a sut maent yn gweithredu'n ymarferol.

Rydym am glywed gan ofalwyr, sefydliadau cynrychiolíadol ac eraill sydd â phrofiad perthnasol. Bydd eich gwybodaeth yn ganolog wrth ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol.

# Cefndir a diben

Mae'r Lwfans Gofalwr yn darparu rhywfaint o gymorth ariannol i bobl yng Nghymru a Lloegr nad ydynt yn gallu gweithio'n llawn amser oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu. I'r rhan fwyaf o bobl, ond nid pawb, caiff ei ategu gan gymorth gan Gredyd Cynhwysol neu Gredyd Pensiwn. Er mwyn cael y Lwfans Gofalwr, mae'n rhaid i hawlwyr fodloni nifer o amodau, gan gynnwys darparu o leiaf 35 awr o ofal yr wythnos. Nid yw'r Lwfans Gofalwr yn dibynnu ar brawf modd, ond mae'n cymhwyso terfyn enillion o 16 gwaith cyfradd fesul awr y Cyflog Byw Cenedlaethol, (£204 yr wythnos ar hyn o bryd), fel ffordd

anuniongyrchol o sicrhau bod yr unigolyn anabl yn cael y gofal sydd ei angen arno.

Mae Credyd Cynhwysol a Chredyd Pensiwn hefyd yn darparu cymorth ychwanegol i ofalwyr. Pan fydd rhywun yn cael mwy nag un budd-dal, gall y ffordd y mae'r budd-daliadau hynny'n rhyngweithio effeithio ar ei hawl gyffredinol i fudd-daliadau. Ar lefel ymarferol, gall hyn wneud y system yn gymhleth ac yn anodd ei deall. Mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr Adolygiad Annibynnol o Ordaliadau'r Lwfans Gofalwr, gan gynnwys gwella'r canllawiau ac adolygu gordaliadau yn y gorffennol. Roedd y materion hyn yn cynnwys diffyg eglurder ynghylch sut roedd rheolau enillion yn gweithredu'n ymarferol, yn enwedig i'r rhai ag incwm amrywiol, a oedd yn golygu nad oedd rhai gofalwyr yn ymwybodol eu bod wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn enillion.

Gwnaeth y Llywodraeth dderbyn, neu dderbyn yn rhannol, 38 o'r 40 o argymhellion a wnaed gan yr Adolygiad, ac mae wedi dechrau rhoi newidiadau ar waith i wella'r ffordd y mae'r system yn gweithredu.

# Nod y Cais hwn am Dystiolaeth

Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn gofyn am wybodaeth a safbwyntiau er mwyn adeiladu ar dystiolaeth bresennol yr Adran. Bydd yr hyn a glywn yn helpu i lywio ein ffordd o feddwl yn y dyfodol ynghylch sut y gellir moderneiddio'r Lwfans Gofalwr i gefnogi gofalwyr. Rydym yn awyddus i glywed sut rydych yn meddwl y gallwn wneud y canlynol:

- adlewyrchu patrymau gofal, gwaith ac enillion modern;
- cefnogi gofalwyr i gydbwyso gwaith am dâl a chyfrifoldebau gofalu;
- sicrhau bod y system yn glir ac yn hawdd ei deall;
- cynnal tegwch a gwerth am arian i drethdalwyr.

Mae’r Adran yn arbennig o awyddus i glywed safbwyntiau ar opsiynau posibl i ddiwygio terfyn enillion y Lwfans Gofalwr, ac a fyddai dull mwy rhagweladwy o gyfrifo cyfartaledd enillion yn cynnig gwell cymorth i ofalwyr, o gymharu â’r dull presennol o ystyried pob achos yn unigol. Ar hyn o bryd, lle mae enillion yn amrywio o wythnos i wythnos, gall yr Adran chwilio am batrwm ac enillion cyfartalog dros gyfnod o amser. Bwriedir i’r dull hwn adlewyrchu gwaith sy’n amrywio, ond gall fod yn anodd i ofalwyr ei ddeall a’i ragweld, yn enwedig pan fydd eu henillion yn newid.

# Ymateb i’r Cais hwn am Dystiolaeth

Mae’r cais hwn am dystiolaeth ar agor o 7 Gorffennaf 2026 a bydd yn cau am 11:59pm ar 18 Awst 2026.

# Ar-lein

Ymatebwch i’r cais hwn am dystiolaeth gan ddefnyddio’r ffurflen ar-lein yma Cais am Dystiolaeth ynghylch y Lwfans Gofalwr – Llenwi’r ffurflen Caiff ymatebion eu cyflwyno’n ddienw. Os yw eich ymateb yn cynnwys atodiadau, neu’n hirach na therfyn nodau’r ffurflen ar-

lein, anfonwch eich ymateb atom drwy e-bost i carer.callforevidence@dwp.gov.uk

# Drwy'r post

Os hoffech ymateb drwy'r post, anfonwch eich ymateb i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn y cyfeiriad canlynol:

Carer's Allowance Reform
Devolution, Pensioner Benefits & Carer's Allowance Directorate
Department for Work and Pensions
Floor Two
Caxton House
London
SW1H 9NA

# Drwy e-bost

Gallwch anfon e-bost i carer.callforevidence@dwp.gov.uk i gael gwybod am ffyrdd eraill o gyflwyno ymateb (er enghraifft, drwy ffeil sain). Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost hwn os bydd eich ymateb yn cynnwys atodiadau neu'n hirach na therfyn nodau'r ffurflen ar-lein. Dylid nodi mai mewnflwch ar gyfer ymatebion i'r Cais am Dystiolaeth yn unig yw'r mewnflwch hwn, ac ni allwn ymateb i ymholiadau am hawliadau unigol am fudd-daliadau nac amgylchiadau personol.

Gallwch gyflwyno fideo yn Iaith Arwyddion Prydain i carer.cfebsl@dwp.gov.uk

Dylech sicrhau bod ymatebion i'r cais am dystiolaeth yn cael eu cyflwyno cyn y dyddiad cau, sef 18 Awst 2026.

# Hygyrchedd

Mae'r cais hwn am dystiolaeth ar gael mewn fersiynau hygyrch, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain, Hawdd ei Deall, sain, Braille, print bras a Saesneg.

I ofyn am fersiwn Braille neu gopïau caled o fersiynau hygyrch eraill o'r cais hwn am dystiolaeth, anfonwch neges e-bost i carer.callforevidence@dwp.gov.uk

# Diogelu data a chyfrinachedd

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dadansoddi ac yn crynhoi'r ymatebion, a gall ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i gynorthwyo gyda phrosesu'r ymatebion - bydd hyn o dan oruchwyliaeth ddynol ac ni fydd yn disodli barn ddynol wrth ystyried y dystiolaeth. Gellir cyhoeddi fersiwn ddienw o'ch ymateb mewn rhestr o ymatebion, mewn crynodeb o'r ymatebion a gafwyd, ac mewn unrhyw adroddiadau dilynol ar yr adolygiad. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu eich data personol lle bo hynny'n ofynnol gan y gyfraith, er enghraifft mewn perthynas â chais a wneir o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Byddwn yn tynnu gwybodaeth a allai ddatgelu pwy ydych chi, megis cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn, o'r ymatebion hyn; ond ar wahân i hynny efallai y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Gallwch hepgor gwybodaeth bersonol o'ch ymateb yn gyfan gwbl os byddai'n well gennych wneud hynny.

# Y camau nesaf

Bydd y cais am dystiolaeth yn cau am 11.59pm ar 18 Awst 2026. Bydd crynodeb o'r ymatebion a ddaw i law yn cael ei gyhoeddi'n fuan ar ôl i'r cais am dystiolaeth gau.

Mae rhagor o wybodaeth am y Lwfans Gofalwr, a sut i'w hawlio, ar gael yn Lwfans Gofalwr: Sut mae'n gweithio - GOV.UK.

# Cwestiynau'r Cais am Dystiolaeth (wedi'u cynnwys ar gyfer fformatau hygyrch)

**Mae'r adran hon yn gofyn am ychydig o wybodaeth amdanoch chi. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall pwy sy'n ymateb i'r cais am dystiolaeth.**

## Adran 1: Amdanoch chi / profiad

### C1. Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio orau? *(Dewiswch un)*

- Gofalwr sy'n cael y Lwfans Gofalwr
- Gofalwr nad yw'n cael y Lwfans Gofalwr
- Unigolyn sy'n cael gofal
- Sefydliad / corff cynrychiolidol
- Arall (nodwch)

**C2. Os gwnaethoch ddewis un o'r tri opsiwn cyntaf uchod, dywedwch ychydig yn fwy wrthym amdanoch (dewisol).**

**Oedran**

- **O dan 25**
- **25–34**
- **35–44**
- **45–54**
- **55–64**
- **65+**
- **Gwell gennyf beidio â dweud**

**Beth yw eich rhywedd? (dewisol)**

- **Menyw**
- **Dyn**
- **Anneuaidd**
- **Gwell gennyf hunanddisgrifio**
- **Gwell gennyf beidio â dweud**

**Ethnigrwydd**

- Asiaidd / Asiaidd Prydeinig
- Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig
- Grwpiau ethnig cymysg / lluosog
- Gwyn

- Grŵp ethnig arall: [testun rhydd]
- Gwell gennyf beidio â dweud

**Lleoliad**

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Byw y tu allan i'r DU
- Gwell gennyf beidio â dweud

## Adran 2: Patrymau modern gwaith am dâl

Lle mae enillion gofalwyr yn amrywio, mae'r Adran ar hyn o bryd yn edrych i weld a ellir canfod patrwm enillion er mwyn cyfrifo cyfartaledd yr enillion dros nifer o wythnosau. Gall y cyfnod a ddefnyddir amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Rydym yn gwybod y gall y rheolau presennol fod yn anodd eu deall, yn enwedig lle mae enillion yn amrywio, ac rydym yn awyddus i ddeall sut y gallwn wella'r ffordd y mae hyn yn cael ei egluro a'i gymhwyso. Rydym am wybod pa welliannau, os o gwbl, allai gynnig gwell cymorth i ofalwyr y mae eu henillion yn amrywio. Mae hyn yn cynnwys ystyried y ffordd y mae'r system yn cydbwyso **rhagweladwyedd** (gallu deall ymlaen llaw sut y bydd enillion yn cael eu trin) a **hyblygrwydd** (adlewyrchu amgylchiadau unigol).

**C3. Pa mor dda ydych chi'n deall y rheolau presennol ynghylch sut y gallai enillion effeithio ar Lwfans Gofalwr unigolion?**

- Yn dda iawn
- Yn eithaf da
- Niwtral
- Yn eithaf gwael
- Ddim yn dda o gwbl

**C4: Sut y gellid gwella'r system i gynnig gwell cymorth i ofalwyr y mae eu henillion yn amrywio? A ddylai'r Adran ystyried rhoi dulliau mwy rhagweladwy o gyfrifo cyfartaledd enillion ar waith neu gadw'r dull presennol?**

**C5: A fyddai cyfrifo cyfartaledd enillion dros gyfnodau byr, penodol yn helpu gofalwyr? Os byddai, pa gyfnod o wythnosau fyddai orau yn eich barn chi? Er enghraifft, cyfrifo cyfartaledd enillion bob amser dros gyfnod o 8 wythnos neu 16 wythnos. Beth fyddai'r cyfnod gorau o wythnosau yn eich barn chi?**

Mae'r Adran yn archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno tapr enillion yn lle'r terfyn enillion ymyl dibyn wythnosol presennol ar gyfer y Lwfans Gofalwr. Ar hyn o bryd, mae taliadau'r Lwfans Gofalwr yn dod i ben os yw enillion yn mynd uwchlaw'r terfyn wythnosol. Un dewis arall posibl fyddai i swm y Lwfans Gofalwr leihau'n raddol wrth i enillion godi uwchlaw swm penodol, yn hytrach na dod i

ben yn llawn fel sy’n digwydd ar hyn o bryd. Gelwir hyn yn dapr enillion.

Mae ffyrdd gwahanol y gallai hyn weithio. Byddai angen gwneud penderfyniadau ynghylch cyfradd unrhyw dapr a lefel yr enillion y caiff ei gymhwyso ati, gan gynnal gwerth i’r trethdalwr ar yr un pryd.

**C6: Pe bai’r Lwfans Gofalwr yn cael ei leihau’n raddol wrth i enillion gynyddu (tapr enillion), pa ddull fyddai’n well gennych?**

- Caniatáu i bobl ennill mwy cyn i’r Lwfans Gofalwr ddechrau lleihau, ond yna ei leihau’n gyflymach
- Dechrau lleihau’r Lwfans Gofalwr ar lefel enillion is, ond ei leihau’n fwy graddol
- Dull arall (eglurwch)

**C7. Beth ddylai fod bwysicaf wrth gynllunio unrhyw newidiadau i sut mae enillion yn effeithio ar y Lwfans Gofalwr?**

Rhestrwch yn nhrefn blaenoriaeth beth sydd bwysicaf i chi.

- bod yn syml ac yn hawdd ei ddeall
- bod yn rhagweladwy (gwybod ymlaen llaw sut mae enillion yn effeithio ar daliadau)
- caniatáu hyblygrwydd ar gyfer amgylchiadau gwahanol
- lleihau’r risg o ordaliadau

- cadw'r system yn fforddiadwy

**C8: Pa ffactorau ddylai bennu lle mae tapr enillion yn dechrau ac yn gorffen? Er enghraifft, a ddylai ddechrau ar derfyn enillion y Lwfans Gofalwr (£204 ar hyn o bryd) neu islaw neu uwchlaw'r terfyn? Faint, yn eich barn chi, y gallai rhywun ei ennill ochr yn ochr â gofalu cyn i'r tapr ddod i ben?**

**C9: Sut y dylai'r Adran gyfleu tapr enillion? Beth fyddai'n helpu pobl i ddeall sut y byddai gostyngiad graddol wrth dalu'r Lwfans Gofalwr yn effeithio arnynt yn ymarferol?**

Mae tua dwy ran o dair o'r bobl sy'n cael y Lwfans Gofalwr hefyd yn cael Credyd Cynhwysol. Gall hyn gynnwys cymorth ychwanegol i ofalwyr drwy ychwanegiad gofalwr. Pan fydd rhywun yn cael y ddau fudd-dal, ystyrir y Lwfans Gofalwr fel incwm, sy'n golygu bod swm y Credyd Cynhwysol yn cael ei gynyddu gan yr ychwanegiad gofalwr ond yna'n cael ei leihau gan yr incwm o'r Lwfans Gofalwr.

Mae'r Lwfans Gofalwr yn arwain at gyfraniad Yswiriant Gwladol mwy hael na Chredyd Cynhwysol, ond telir Credyd Cynhwysol ar gyfradd uwch na'r Lwfans Gofalwr a chaiff enillion eu trin mewn ffordd fwy hael. Mae'r Lwfans Gofalwr yn fudd-dal unigol nad yw'n ystyried cyfalaf nac incwm heblaw enillion, ond mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal ar sail aelwyd sy'n dibynnu ar brawf modd.

Mae'r Adran yn ystyried sut y gall y ddwy system gydweithio orau yn y dyfodol fel ei bod yn haws eu deall.

**C10: Sut y dylai'r Adran sicrhau bod y cymorth i ofalwyr di-dâl drwy'r Lwfans Gofalwr a Chredyd Cynhwysol yn gweithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd i'r rhai sy'n cael y ddau?**

## Adran 3: Materion sy'n ymwneud â thalu a ffynonellau cymorth eraill

Ar hyn o bryd, mae 60% o dderbynwyr y Lwfans Gofalwr yn cael eu talu'n wythnosol ymlaen llaw, ac mae 40% yn cael eu talu un wythnos ymlaen llaw a thair wythnos mewn ôl-daliadau. Byddai talu pedair wythnos mewn ôl-daliadau yn caniatáu mwy o amser i roi gwybod am newidiadau mewn amgylchiadau a'u prosesu. Gallai hyn helpu i leihau gordaliadau. Byddai hefyd yn caniatáu i'r Adran wneud y defnydd gorau o ddata enillion gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi.

**C11: Beth fyddai manteision ac anfanteision talu'r Lwfans Gofalwr bedair wythnos mewn ôl-daliadau?**

Mae'r Lwfans Gofalwr ar gael i fyfyrwyr sydd ar gyrsiau rhan-amser am lai nag 21 awr yr wythnos. Mae myfyrwyr llawn amser sy'n darparu gofal am 35 awr neu fwy yr wythnos yn cael eu cefnogi drwy'r systemau cyllid myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn creu gwahaniaeth rhwng y rhai sy'n astudio islaw ac uwchlaw'r trothwy hwn.

**C12: Beth yw'r ffordd orau o nodi gofalwyr di-dâl a'u cefnogi i gyfuno astudio â'u cyfrifoldebau gofalu lle y gallant? Sut mae'r rheol 21 awr yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch astudio?**

## Adran 4: Safbwyntiau ehangach ar eich profiad o'r Lwfans Gofalwr

**C13 Rydym yn cydnabod y gallai fod gan bobl safbwyntiau ehangach ar y Lwfans Gofalwr a'r ffordd y mae'n gweithio. Yn eich barn chi, a oes agweddau eraill ar y Lwfans Gofalwr y byddai'n ddefnyddiol i'r Adran eu deall?**

# Rhestr termau

- Cyfrifo cyfartaledd enillion: edrych ar enillion dros gyfnod penodol (er enghraifft sawl wythnos) i gyfrifo cyfartaledd, yn hytrach nag asesu pob wythnos yn unigol.
- Terfyn enillion: y swm uchaf y gall rhywun ei ennill bob wythnos a pharhau i gael y Lwfans Gofalwr.
- Ymyl dibyn: lle mae'r Lwfans Gofalwr yn dod i ben yn llwyr os bydd enillion yn mynd uwchlaw'r terfyn.
- Tapr enillion: dewis amgen lle byddai'r Lwfans Gofalwr yn lleihau'n raddol wrth i enillion gynyddu, yn lle dod i ben yn llwyr ar unwaith.
- Disgresiwn: lle mae'r Adran yn pwyso a mesur amgylchiadau unigol yn hytrach na chymhwyso rheolau sefydlog.

- Rhagweladwyedd: gallu deall ymlaen llaw sut y bydd enillion yn effeithio ar hawl.
- Hyblygrwydd: galluogi'r system i adlewyrchu amgylchiadau unigol gwahanol.
- Talu mewn ôl-daliadau: telir y Lwfans Gofalwr mewn ôl-daliadau, sy'n golygu bod y taliad yn cael ei wneud ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r hawl i'r lwfans wedi'i sefydlu ar ei gyfer.